ADRODDIAD I'R: AWDURDOD TÂN	
DYDDIAD: 29ain Mehefin 2009	**CYFEIRNOD:**

TESTUN: Gwobr i'r Diffoddwr Tân Paul Dyson, Gorsaf 36, Doc Penfro

CRYNODEB:

Ar Fai 1af 2009, cyflwynwyd Gwobr Ddinesig i'r Diffoddwr Tân Paul Dyson o Wylfa Las, Doc Penfro, gan Gyngor Tref Penfro am ei waith gyda changen Doc Penfro o'r Diffoddwyr Tân Ifanc.

Enwebwyd DT Dyson ar gyfer y wobr gan ei gydweithwyr yn Noc Penfro am ei ymroddiad i'r Diffoddwyr Tân Ifanc (DTI). Roedd DT Dyson yn allweddol wrth sefydlu'r gangen DTI ac mae wedi cynnig arweiniad parhaus i'r bobl ifanc sy'n mynychu'r DTI. At hynny, mae wedi ymddwyn fel model rôl cadarnhaol i'r bobl ifanc yn nhraddodiadau gorau Gwasanaeth Tân ac Achub modern.

I gyfannu'r Wobr Ddinesig hon, DT Dyson oedd derbynnydd cyntaf y Wobr Deilyngdod a grëwyd yn ddiweddar am ymrwymiad neilltuol i gymuned Doc Penfro. Roedd y wobr hon yn gwbl annisgwyl i DT Dyson ac fe'i cyflwynwyd i ganmol yr holl waith caled y mae'r hyfforddwyr a'r bobl ifanc wedi'i gyflawni dros y tair blynedd diwethaf, yn ogystal â'i waith ei hun.

AMCANION		GOBLYGIADAU	
Mwy na Gwasanaeth Brys	✓	Rheoli Risg Weithredol	
Cael ein cwsmeriaid i'n parchu ac ymddiried ynom	✓	Lleihau risg yn y gymuned	✓
Achub bywydau a diogelu cymunedau	✓	Dysgu a Datblygu	
Rheoli o fewn y gyllideb		Canolfan Reoli'r Gwasanaeth	
Dyrannu Adnoddau i Flaenoriaethau		Argyfyngau Sifil a Gwydnwch	
Arbedion Effeithlonrwydd		Cyllid a Chaffaeliad	
Nawdd ac Adnoddau Eraill		Adnoddau Dynol	✓
Rheoli Pobl	✓	TGCh	
Cynllunio i Leihau Risg		CCChA	
Gwaith Partneriaeth	✓	Trafnidiaeth	
Pobl Effeithiol ac Awdurdodedig	✓	Iechyd a Diogelwch	
		Ystadau	
		Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd	
		Iaith Gymraeg	
		Cyfreithiol	
		Rheolaeth	
		Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	
		Ymgynghori â Chyrff Cynrychiolaidd	

SYLWADAU/ARSYLWADAU AM YR AMCANION/GOBLYGIADAU UCHOD:

Dim.

ARGYMHELLION:

Gofynnir i'r aelodau nodi cyflawniadau'r Diffoddwr Tân Dyson, fel y cydnabuwyd gan Gyngor Tref Penfro drwy gyflwyno'r Wobr Ddinesig a'r Wobr Deilyngdod.

PAPURAU CEFNDIR A DDEFNYDDIWYD WRTH BARATOI'R ADRODDIAD HWN:
Adroddiad gan y Rheolwr Grŵp Nick Webley, Pennaeth Rheolaeth Sir Benfro.

Awdur(on) yr Adroddiad a'u Swyddi	Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Wyn Edwards Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau
Rhif ffôn/Estyniadau	4405